



Systemau Craidd y Senedd

24 Awst 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Awst 2023, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

Hi, Could you please respond to the following questions about your Core Systems:

1. *How many employees do you have?*

2. ERP

- Which Enterprise Resource Planning (ERP) or Finance system do you currently use?*
- What is the value & expiry date of your current contract/licence? What are the extension options?*
- Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*

3. CRM

- Which Customer Relationship Management (CRM) System do you currently use?*
- What is the value & expiry of your current contract/licence? What are the extension options?*
- Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*

4. SCM

- Which Supply Chain Management (SCM) System do you currently use?*
- What is the value & expiry date of your current contract/licence? What are the extension options?*
- Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*

5. EPM

- Which Enterprise Performance Management (EPM), Scenario Planning or Strategic Modelling System do you currently use?*
- What is the value & expiry date of your current contract/licence? What are the extension options?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

- *Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*

6. HR & Payroll

- *Which Human Capital Management (HCM) or HR and Payroll system do you currently use?*
- *What is the value & expiry date of your current contract/licence? What are the extension options?*
- *Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*

7. BI

- *Which Analytics or Business Intelligence Systems do you currently use?*
- *What is the value & expiry date of your current contract/licence? What are the extension options?*
- *Do you have any plans to review (upgrade/change) this system?*
- *Do you have any plans to migrate to a fully integrated, fully cloud-based back-office system in the next two years?*

Gallwn gadarnhau bod gennym ran o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, ni fyddwn yn anfon datgeliad llawn atoch ar yr achlysur hwn, gan fod rhan o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf").

Amgaeaf daenlen Excel sy'n cynnwys ein hymatebion i'ch cais. Mae'r daenlen yn nodi:

- y wybodaeth yr ydym yn gallu ei datgelu;
- y wybodaeth nad ydym yn ei dal (a ddynodir gan y term **Amherthnasol**);
- y wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ar ein gwefan drwy ein **hamserlen contractau** (ac sydd felly wedi'i heithrio rhag ei datgelu yn rhinwedd adran 21 o'r Ddeddf, sy'n cwmpasu gwybodaeth y gellir cael gafael arni drwy ddulliau eraill);
- y wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag ei datgelu yn rhinwedd eithriadau eraill (a ddynodir gan y term **cadwyd yn ôl**).

Rydym o'r farn y byddai anfon datgeliad llawn atoch yn dangos sut rydym yn rheoli ein systemau diogelwch mewnol, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn gwneud ein systemau'n agored i ymosodiadau maleisus. I'r perwyl hwnnw, rydym yn ystyried bod dau eithriad yn berthnasol sydd, yn gryno, fel a ganlyn:

1. adran 24 – mae'n ofynnol cadw'r wybodaeth yn ôl at ddibenion amddiffyn diogelwch gwladol; ac

2. adran 31(1)(a) – byddai datgelu'r wybodaeth yn amharu, neu'n debygol o amharu, ar y broses o atal troseddau.

Mae rhagor o fanylion am yr eithriadau rydym wedi'u cymhwyso, a'r rhesymau dros wneud hynny, i'w gweld yn yr **atodiad** i'r llythyr hwn.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

[A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?](#)

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Atodiad

Adran 31

Mae adran 31(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- *Information which is not exempt information by virtue of section 30 is exempt information if the disclosure would, or would be likely to, prejudice –*
(a) the prevention or detection of crime...

Mae gweithredu'r eithriad hwn yn cynnwys nifer o gamau:

- rhaid i un o'r buddiannau gorfodi'r gyfraith a ddiogelir gan adran 31 gael ei niweidio gan y datgeliad;
- rhaid i'r niwed a honnir fod yn real, yn wirioneddol neu yn sylweddol;
- rhaid i'r awdurdod cyhoeddus allu dangos bod cysylltiad achosol rhwng y datgeliad a'r niwed a honnir;
- yna, mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu beth yw'r tebygolrwydd y bydd y niwed yn digwydd os bydd datgeliad yn cael ei wneud (hynny yw, a fyddai'n digwydd, neu a fyddai'n debygol o ddigwydd yn unig).

Po fwyaf tebygol yw'r niwed o ddigwydd, y mwyaf pwysig ydyw wrth ystyried budd y cyhoedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term "byddai niwed yn digwydd" yn golygu bod yn rhaid iddo fod yn fwy tebygol na pheidio y byddai'r niwed yn digwydd. Mae "byddai'n debygol o niweidio" yn brawf lefel is.

Gellir cadw gwybodaeth yn ôl o dan adran 31 dim ond os byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, un o'r gweithgareddau a restrir yn naill ai is-adran (1) neu (2). Y gweithgaredd perthnasol yma yw "atal neu ganfod trosedd", fel y rhestrir yn is-adran (1)(a).

Mae Adran 31(1)(a) yn cwmpasu pob agwedd ar ganfod ac atal troseddau. Gellir defnyddio'r eithriad hwn i gadw gwybodaeth yn ôl a fyddai'n gwneud unrhyw un, gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus ei hun, yn fwy agored i brofi trosedd. Felly, gall yr awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad er mwyn diogelu gwybodaeth ar ei systemau, neu am ei systemau, mewn achosion lle byddai ei datgelu gwneud yr

awdurdod (ac eraill) yn fwy agored i brofi trosedd. Mae'r wybodaeth a ganlyn yn cael ei chwmpasu gan yr eithriad hwn: enwau darparwyr y feddalwedd a'r systemau gweithredu a ddefnyddir gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn"), a fyddai, yn eu tro, yn datgelu gwybodaeth bwysig am y systemau hynny, a'r fersiynau a ddefnyddir, gan gynnwys y systemau gweithredu a'r gwasanaethau seilwaith.

Mae'r ffactorau yn erbyn datgelu'r wybodaeth dan sylw yn cynnwys y canlynol:

- mae gan y Comisiwn, fel rheolydd o dan y gyfraith ar ddiogelu data, ddyletswydd i sicrhau diogelwch yr holl ddata personol a gedwir gennym. Byddai gwneud datgeliad yn tanseilio ein gallu i gyflawni'r ddyletswydd honno – er enghraifft, drwy wneud y systemau'n fwy agored i ymosodiad;
- byddai datgeliad yn gadael ein data yn agored i'r bygythiad o fynediad, datgeliad, newid neu ddinistrio. Yn ei dro, gall hyn arwain at droseddau, gan gynnwys troseddau yn erbyn eiddo, troseddau yn erbyn personau, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, twyll, neu fandaliaeth ddigidol.

Nid yw'r prawf niwed yn gyfyngedig i'r niwed a achosir gan y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ei phen ei hun. Gellir ystyried unrhyw niwed sy'n debygol o godi pe bai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei rhoi ynghyd â gwybodaeth arall sydd eisoes yn hysbys i'r ceisydd neu sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae hefyd yn briodol ystyried y cynsail y gellid ei osod ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol drwy ddatgelu gwybodaeth am ein trefniadau diogelwch.

Ein barn ni, ar ôl ystyried yr effaith y gallai datgeliad ei chael ar uniondeb y Comisiwn a'i seilwaith TGCh, yw y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn peryglu diogelwch systemau'r Comisiwn ac, o ganlyniad i hynny, diogelwch y Comisiwn, y Senedd, y rheini sy'n gweithio ar ystâd y Senedd ac yn ymweld â hi, yn ogystal â'r rheini sy'n cydweithio â ni. Byddai hyn yn niweidio'r broses o atal neu ganfod troseddau.

Yna, aethom ati i ystyried prawf budd y cyhoedd. Fel rhan o'r prawf hwn, mae angen cydbwysu diogelwch y Senedd a'r Comisiwn, a'i seilwaith TGCh, yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn y Comisiwn i gyfrif.

Mae budd amlwg i'r cyhoedd o ran sicrhau bod y Comisiwn yn dryloyw o ran ei brosesau a'i systemau, fel y gellir ei ddwyn i gyfrif fel awdurdod cyhoeddus. Fodd bynnag, mae

budd amlwg i'r cyhoedd hefyd o ran amddiffyn cymdeithas rhag effaith trosedd. Yn ogystal, mae budd i'r cyhoedd o ran galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau a'i ddiben. Mae dyletswydd ar y Comisiwn i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei swyddogaethau. Byddai datgeliad yn tanseilio ein gallu i gyflawni'r ddyletswydd honno. Er enghraifft, pe byddai'r systemau craidd sydd ar waith yn destun ymosodiad, ni fyddent yn gweithredu'n effeithiol nac yn briodol.

Po fwyaf yw'r potensial y bydd datgeliad yn arwain at droseddu, y mwyaf yw budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad. Gall sefydliadau ac unigolion ddioddef trosedd. Yn ein barn ni, fodd bynnag, mae amddiffyn unigolion rhag effeithiau trosedd yn fwy o fater o fudd y cyhoedd. Drwy ddatgelu gwybodaeth a allai amlygu gwendidau yn seilwaith TGCh y Comisiwn, byddai'r unigolion sy'n gweithio ar ystâd y Senedd, a'r rhai sy'n ymweld â hi, yn wynebu perygl uwch o ddioddef trosedd. Yn ogystal, gallai unigolion a sefydliadau sy'n ymgysylltu â'n tîm allgymorth, ein tîm cyfathrebu a'n gwasanaeth pwyllgorau, hefyd gael eu rhoi mewn perygl pe bai ein systemau yn cael eu peryglu. Byddai hyn hefyd yn wir am unrhyw gontractwyr a chyflenwyr allanol yr ydym yn ymgysylltu â hwy.

Yn yr achos hwn, rydym o'r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu'r wybodaeth yn gorbwyso'r angen i ddiogelu uniondeb y seilwaith TGCh sydd ar waith er mwyn diogelu'r Comisiwn a'r Senedd, y rheini sy'n gweithio ar ein rhan, a'r rheini sy'n cydweithio â ni.

Adran 24

Mae adran 24(1) o'r Ddeddf yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

- *Information which does not fall within section 23(1) is exempt information if exemption from section 1(1)(b) is required for the purpose of safeguarding national security.*

Rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol cadw'r wybodaeth yn ôl er mwyn cynnal uniondeb a chadernid seilwaith TGCh y Comisiwn a'r holl ddata, gan gynnwys data personol, a gedwir ynddo. Yn ei dro, mae hyn yn ein galluogi i sicrhau bod y Senedd yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol fel deddfwrfa.

Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan yr eithriad hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r feddalwedd benodol a'r systemau gweithredu penodol a ddefnyddir gan y Comisiwn. Mae'n cynnwys systemau a ddefnyddir gan dîm Adnoddau Dynol a thîm Cyllid y Comisiwn, ac mae pob un ohonynt yn hanfodol o ran sicrhau bod y Comisiwn yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Byddai datgelu manylion y systemau penodol a ddefnyddir yn ei gwneud yn haws i ymosodwr ecsbloetio'r systemau hynny, yn ogystal â systemau eraill ar y rhwydwaith lle cedwir gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth feddygol, gwybodaeth ariannol a gwybodaeth bersonol arall.

Pe bai'r systemau hynny'n destun ymosodiad croesi (*traversal attack*), lle mae sicrhau mynediad at un cymhwysiad yn gallu arwain at sefyllfa lle mae cymhwysiadau eraill dan fgygythiad, byddai ein hadnoddau a'n data yn agored i'r bygythiad o fynediad, datgeliad, newid neu ddinistrio. Y risg wrth ddatgelu'r wybodaeth hon yw bod tebygolrwydd gwirioneddol y byddai'n niweidio effeithiolrwydd ac uniondeb y systemau hynny, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn amharu ar y modd y mae'r Comisiwn a'r Senedd yn gweithredu.

Mae uniondeb a chadernid ein systemau TGCh yn hollbwysig i'r modd y mae'r Comisiwn a'r Senedd yn gweithredu. Er nad ydych yn gofyn yn eich cais am wybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r system teledu cylch cyfyng sydd ar waith, mae'r system honno wedi'i nodi fel enghraifft o system y byddai modd cael mynediad ati pe bai systemau eraill, fel y rhai a ddefnyddir gan y tîm Cyllid a'r tîm AD, yn cael eu peryglu. Rydym wedi

cael ein categoreiddio fel **Safle Haen 1**, ac mae gweithrediad y system teledu cylch cyfyng yn enghraifft o'r angen i gynnal uniondeb ein system TGCh er mwyn sicrhau diogelwch yr ystâd. Pe bai rhywbeth yn amharu ar y system rheoli mynediad a'r system teledu cylch cyfyng, mae posibilrwydd gwirioneddol y byddai hynny'n gadael ystâd y Senedd yn agored iawn i niwed, gan na fyddem yn gallu adnabod unrhyw weithgarwch gelyniaethus na rheoli unrhyw weithgareddau anghyfreithlon. Drwy gynnal rheolaethau effeithiol, gallwn sicrhau nad yw Aelodau o'r Senedd, Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd, staff Comisiwn y Senedd, ac ymwelwyr ag ystâd y Senedd yn cael eu peryglu.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad amodol, ac o'r herwydd, rhaid ystyried budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad. Parthed datgelu'r wybodaeth, y ffactor allweddol i'w ystyried o ran budd y cyhoedd yw bod gan y cyhoedd yr hawl i wybod bod systemau TGCh digonol a phriodol ar waith yn y Comisiwn a'r Senedd. Ein barn ni, fodd bynnag, yw y byddai rhyddhau'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn niweidio uniondeb ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch a systemau diogelwch TGCh y Senedd yn sylweddol. Felly, yn yr achos hwn, mae budd y cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn ôl yn gorbwysu budd y cyhoedd o ran ei datgelu.